Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**8 Hydref 2024**

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**

**Adroddiad archwilio ar gynnydd o ran cyflwyno model gweithredu cenedlaethol ar gyfer ymchwiliadau trais a throseddau rhywiol difrifol eraill mewn heddluoedd mabwysiadu cynnar**

Croesawaf yr adroddiad archwiliad hwn a'i argymhellion. Mae Ymgyrch Soteria Bluestone yn faes plismona yr wyf yn ei oruchwylio'n fanwl, gan gwrdd yn rheolaidd â'r Ditectif Brif Arolygydd sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros weithredu'r model gweithredu cenedlaethol.

Trafodwyd yr adroddiad archwiliad mewn cyfarfod o'm Bwrdd Plismona ar 24 Medi 2024. Cyn y cyfarfod, gofynnwyd i'r Prif Gwnstabl roi ymateb ysgrifenedig i'r adroddiad imi. Yn bwysig, gofynnwyd i'r Prif Gwnstabl dynnu fy sylw at unrhyw bryderon penodol neu arfer gorau mewn perthynas â'r meysydd allweddol a gafodd eu hystyried gan yr archwiliad hefyd. Derbyniwyd ymateb cynhwysfawr, â'm galluogodd, yn fy nhro, i ddarparu'r ymateb manwl hwn.

Roedd 5 o'r 14 argymhelliad yn cynnwys gofynion penodol o brif gwnstabliaid a heddluoedd. Darperir yr ymateb i bob un ohonynt isod.

**Argymhelliad 3**
**Erbyn 31 Ionawr 2025, dylai pob heddlu sicrhau bod personél sy'n gweithio ar achosion trais a throseddau rhywiol difrifol eraill yn derbyn hyfforddiant a gymeradwyir gan y Coleg Plismona ar ymchwilio i achosion gair-ar-air.**

Mae Heddlu Dyfed-Powys (HDP) yn disgwyl pecyn hyfforddi 'gair-ar-air' y Coleg Plismona.

Yn gynharach eleni, rhoddodd HDP hyfforddiant i dditectifs sy'n ymchwilio i drais a throseddau rhywiol difrifol eraill a oedd yn cynnwys achosion 'gair-ar-air' a chanllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron (GEG) sy'n nodi y gall drwgdybiedigion gael eu heuogfarnu lle mae ychydig o gadarnhad, neu ddim cadarnhad.

Roedd y Prif Gwnstabl yn medru rhoi enghraifft sy'n dangos effeithiolrwydd yr hyfforddiant hwn yn glir: Ceisiodd swyddog heddlu benderfyniad cyhuddo ar y prawf trothwy gan gyfreithiwr GEG. Cwestiynodd y cyfreithiwr dystiolaeth yr heddlu, gan ddweud mai 'gair un yn erbyn y llall' ydoedd. Roedd gan y swyddog yr hyder i herio cyfreithiwr GEG, gan ddweud nad oes y fath beth â 'gair-ar-air'.

Mae'n gysur gweld bod HDP yn parhau i gyflenwi pecyn hyfforddi mor bwysig wrth ddisgwyl i becyn y Coleg Plismona gael ei gyhoeddi.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

Fodd bynnag, mae HDP wedi cydnabod bod bwlch mewn datblygiad proffesiynol parhaus strwythuredig ar gyfer ymchwilwyr trais a throseddau rhywiol difrifol eraill, sydd hefyd wedi’i nodi gan Uned ar y Cyd y Swyddfa Gartref fel maes y mae angen i’r Heddlu wella. Serch hynny, mae’n gadarnhaol bod pob ditectif wedi cymryd rhan yn y Rhaglen Datblygu Ymchwilio i Drais a Throseddau Rhywiol Difrifol Eraill, a bydd pob swyddog rheng flaen yn cael eu hyfforddi yn y cwrs Ymatebwr Cyntaf Trais a Throseddau Rhywiol Difrifol Eraill newydd rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2024.

Heblaw hyn, bydd ditectifs sydd wedi’u hyfforddi hyd Rhaglen Ymchwilio Proffesiynoli (Lefel 2) yn cymryd rhan yn y Rhaglen Datblygu Ymchwiliadau Ymosodiadau Rhywiol o fis Medi 2025 ymlaen, a bydd yn rhaid i bob ymchwilydd trais a throseddau rhywiol difrifol eraill ymgymryd â’r Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr Ymosodiadau Rhywiol Arbenigol cyn 2029.

**Argymhelliad 5**
**Erbyn 31 Gorffennaf 2025, dylai prif gwnstabliaid sicrhau bod eu heddluoedd yn defnyddio’r diffiniad newydd o ddrwgdybiedigion trais a throseddau rhywiol difrifol eraill mynych i’w hadnabod a’u rheoli.**

Mae argymhelliad 4 yn galw am gyhoeddi diffiniadau o ddrwgdybiedigion trais a throseddau rhywiol difrifol eraill mynych, a chanllawiau ategol ar reoli’r drwgdybiedigion hyn gan y Coleg Plismona ac Uned ar y Cyd Soteria. Ar ôl derbyn y rhain, bydd HDP yn medru datblygu argymhelliad 5. Bydd yr Heddlu’n adolygu ac yn diwygio polisïau a chanllawiau mewnol er mwyn adlewyrchu diffiniadau a chanllawiau cenedlaethol.

Mae’n gyffredin yn awr i’m Swyddfa gael ei holi i adolygu newidiadau i bolisïau a chanllawiau HDP. Gan hynny, byddwn ni’n medru monitro cynnydd yn erbyn argymhelliad 5 yn agos.

Mewn perthynas ag adnabod a rheoli troseddwyr trais a throseddau rhywiol difrifol eraill mynych, cydnabu HDP nad oes ganddynt broses gyson mewn grym ar hyn o bryd. Mae adroddiad archwiliad AHGTAEF yn cyfeirio at ddefnyddio Tasgio a Chydlynu Amlasiantaeth, a ddefnyddir gan sawl gwasanaeth heddlu ar gyfer troseddwyr cam-drin domestig. Er nad yw HDP wedi sefydlu proses Tasgio a Chydlynu Amlasiantaeth eto ar gyfer cam-drin domestig, mae cynlluniau ar waith o dan Ymgyrch Soteria ar gyfer creu proses lle bydd troseddwyr trais a throseddau rhywiol difrifol mynych yn cael eu rheoli.

Bydd y broses hon, sydd wedi’i chynnwys o fewn Cynllun Gweithredu Ymgyrch Soteria, sydd ar fin cael ei gymeradwyo gan y Prif Gwnstabl

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

Cynorthwyol, yn canolbwyntio ar waith rhyngadrannol i gychwyn cyn ceisio ymagwedd datrys problemau amlasiantaeth.

**Argymhelliad 7**
**Erbyn 31 Ionawr 2025, dylai pob prif gwnstabl sicrhau bod eu heddluoedd yn blaenoriaethu adnabod ac aflonyddu ar ddrwgdybiedigion trais a throseddau rhywiol difrifol eraill. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod:**

- **heddluoedd yn olrhain, rheoli ac yn ymateb yn effeithiol i achosion o dorri amodau mechnïaeth a gorchmynion amddiffyn mewn achosion trais a throseddau rhywiol difrifol eraill; a**
- **bod yr holl bersonél perthnasol yn cwblhau hyfforddiant Model Gweithredu Cenedlaethol ar ddefnyddio gorchmynion troseddol a sifil er mwyn mynd i'r afael â thrais a throseddau rhywiol difrifol eraill.**

Ym mis Mawrth 2024, cyflwynodd HDP Dîm Bluestone canolog i helpu i wella'r ffordd maen nhw'n ymgysylltu â dioddefwyr trais sy'n oedolion ac yn eu cefnogi. Mae proses yn cael ei datblygu ar y cyd â Thîm Bluestone, a fydd yn gweld troseddwyr mynych yn cael eu trafod mewn fforwm misol lle bydd ymagwedd datrys problemau'n cael ei gweithredu i reoli'r risg. Ar hyn o bryd, mae HDP yn defnyddio prosesau tasgio Ardal Blismona Leol i ddwysáu drwgdybiedigion trais a throseddau rhywiol difrifol eraill.

Mae HDP wedi recriwtio Cydlynydd Gorchmynion Sifil sy'n cynorthwyo ag adnabod drwgdybiedigion trais a throseddau rhywiol difrifol eraill sy'n addas ar gyfer cais gorchymyn sifil. Drwy ddatblygu cronfa ddata o geisiadau gorchymyn sifil, mae'r Cydlynydd hefyd yn medru cynnal rheolaeth a goruchwyliaeth uwch o'r holl orchmynion sifil ac unrhyw doriadau dilynol. Mae cynrychiolwyr o'm Swyddfa i'n derbyn diweddariadau rheolaidd gan y Cydlynydd Gorchmynion Sifil am y gwaith sy'n cael ei gyflawni a chynnydd o fewn y rôl.

Wedi'i gydnabod fel arfer da gan aelodau Uned ar y Cyd y Swyddfa Gartref, mae HDP yn hybu cynnydd Ymgyrch Soteria drwy 6 arweinydd Piler o reng addas sy'n medru effeithio ar newid. Mae arweinydd Piler dau yn gyfrifol am sicrhau bod yr hyfforddiant Model Gweithredu Cenedlaethol ar ddefnyddio gorchmynion sifil a throseddol i fynd i'r afael â thrais a throseddau rhywiol difrifol eraill yn cael ei gwblhau gan yr holl bersonél perthnasol. O'r herwydd, bydd yr hyfforddiant yn ffurfio rhan o Gynllun Gweithredu Piler dau.

**Argymhelliad 9**
**Erbyn 31 Ionawr 2025, dylai prif gwnstabliaid sicrhau bod gan eu heddluoedd brosesau da mewn grym ar gyfer gwneud cais i gadw DNA ac olion bysedd i wella eu defnydd o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984.**

Mae gan HDP broses mewn grym ar gyfer gweithredu ceisiadau ar gyfer cadw DNA ac olion bysedd i'r Comisiynydd Biometreg drwy Swyddfa Gudd-wybodaeth yr Heddlu. Fodd bynnag, mae'r Heddlu'n cydnabod y gofyniad i gynyddu gwybodaeth staff a goruchwylwyr mewn perthynas â'r defnydd ohoni.

Hysbysir Ditectif Arolygwyr gan Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu pan ddylid dinistrio cofnodion achos, fodd bynnag, mae HDP yn cydnabod bod angen ystyriaeth gynt. Mae'r Heddlu wedi nodi hyn fel maes y mae angen ei wella. Mae'r Pennaeth Gwaith Fforensig a'r Ditectif Brif Arolygydd sy'n arwain ar Ymgyrch Soteria i fod i adolygu'r broses gyfredol, datblygu gohebiaeth er ymwybyddiaeth swyddogion, a chynllunio i ddefnyddio sesiynau gwybodaeth misol yr Adran Ymchwilio i Droseddau er mwyn gwella sgiliau ymchwilwyr.

**Argymhelliad 11**
**Erbyn 31 Mawrth 2025, fel rhan o fabwysiadu'r Model Gweithredu Cenedlaethol, dylai pob prif gwnstabl sicrhau bod eu heddluoedd yn:**

- **datblygu proffil problemus trais a throseddau rhywiol difrifol eraill;**
- **cynnwys bwrdd hedfan y Model Gweithredu Cenedlaethol o fewn eu monitro perfformiad strategol; a**
- **mabwysiadu unrhyw ddangosyddion perfformiad eraill sydd wedi'u cytuno a'u cyhoeddi gan yr Uned Soteria ar y Cyd.**

Mae HDP yn cyhoeddi Proffil Problemus Trais blynyddol. Bydd Proffil Problemus Trais 2024, sy'n cyd-fynd ag argymhellion AHGTAEF, yn cynnwys data gan sefydliadau trydydd parti megis Llwybrau Newydd; sef gwasanaeth yr wyf yn ei gomisiynu er mwyn darparu gwasanaethau cymorth hollbwysig ar gyfer dioddefwyr cam-drin rhywiol. Bydd Proffil Problemus Trais 2025 hefyd yn cael ei ehangu i gynnwys 'Ymosodiadau Rhywiol Difrifol Eraill'.

Mae dogfennau o fewn yr haen strategol o'r Model Gweithredu Cenedlaethol eisoes yn cael eu defnyddio gan yr Heddlu. Er enghraifft, defnyddiwyd y canllawiau 'Cyfiawnder Gweithdrefnol i Ddioddefwyr Ymosodiadau Rhywiol' i ddatblygu Tîm Bluestone HDP sydd wedi cynorthwyo'n sylweddol o ran hyrwyddo pwysigrwydd cyfiawnder gweithdrefnol i ddioddefwyr.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

Rhwng Mawrth 2024 ac Awst 2024, fe wnaeth Tîm Bluestone adolygu a gweithredu ar 26% (65 achos) o droseddau trais a gofnodwyd. Mewn perthynas â data 2023 a 2024, mae'n dda gan yr Heddlu adrodd bod ymgysylltiad â dioddefwyr gan Dîm Bluestone wedi arwain at gynnydd o 6% o ran dioddefwyr yn cefnogi'r broses cyfiawnder troseddol, cynnydd o 23% o ran dioddefwyr yn derbyn cyfeiriad am gymorth gan Gynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol, a chynnydd o 24% o ran dioddefwyr sydd hefyd yn cefnogi'r broses cyfiawnder troseddol yn derbyn cyfeiriad at Gynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol.

Mae Uned ar y Cyd y Swyddfa Gartref wedi mynegi diddordeb yng ngwaith cadarnhaol Tîm Bluestone yr Heddlu, ac mae adroddiad dadansoddi buddion HDP (sy'n cael ei lunio ar hyn o bryd) yn debygol o gael ei rannu gan Uned ar y Cyd y Swyddfa Gartref ar lefel genedlaethol. Mae derbyn cydnabyddiaeth o'r fath yn genedlaethol yn neilltuol.

Mae bwrdd hedfan y Model Gweithredu Cenedlaethol hefyd wedi'i rannu â Thîm Adolygu'r Heddlu, a fydd yn ystyried y canllawiau fel rhan o elfen 'ymchwiliadau' Adolygiad parhaus yr Heddlu.

Mae HDP yn cydnabod pwysigrwydd y dangosyddion perfformiad allweddol a gyhoeddwyd gan Uned ar y Cyd Soteria, sydd wedi'u rhannu ag Uned Gwella Gwasanaeth yr Heddlu i'w cynnwys mewn dangosfwrdd perfformiad ar gyfer arweinwyr uwch. Wrth aros am ddatblygiad y dangosfwrdd perfformiad, mae nifer o'r dangosyddion perfformiad allweddol y sonnir amdanynt o fewn y Model Gweithredu Cenedlaethol yn cael eu gweithredu'n lleol, megis y Paneli Craffu ar Drais, arolygon ymgysylltu â dioddefwyr a monitro niferoedd ymchwilwyr.

**Arfer da a nodwyd**

Mae'n amlwg o'r ymatebion i'r argymhellion uchod bod HDP yn cymryd camau cadarnhaol o ran gweithredu'r Model Gweithredol Cenedlaethol.

Mae HDP wedi darparu manylion am brosesau ac arferion ychwanegol maen nhw wedi'u rhoi ar waith sydd wedi'u cydnabod gan Uned ar y Cyd y Swyddfa Gartref, a byddwn ar fai pe na bawn i'n cymryd y cyfle hwn i dynnu sylw at feysydd eraill o waith da:

- Mae HDP wedi cyflwyno rôl Rheolwr Prosiect yn benodol ar gyfer Ymgyrch Soteria. O ystyried maint y newid trawsnewidiol sydd angen, y swyddogaeth hon yw'r allwedd i arwain newid a chyflenwi llwyddiant.
- Mae'r Heddlu wedi datblygu 'Proffil Testun Trais' a gynhyrchir gan Swyddfa Gudd-wybodaeth yr Heddlu ar gyfer pob ymchwiliad trais â thestun a enwir. Nododd Uned ar y Cyd y Swyddfa Gartref yn benodol fod hyn yn drawsnewid sylweddol o ran HDP yn canolbwyntio ar ddrwgdybiedigion.

- Ystyriwyd bod ymagwedd Cyfiawnder Gweithdrefnol tuag at ymgysylltu â dioddefwyr yn un o gryfderau HDP, gydag Uned ar y Cyd y Swyddfa Gartref yn cydnabod gwaith partneriaeth ardderchog yr Heddlu gyda Llwybrau Newydd a pherthynas swyddogion gyda Chynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol fel cryfderau allweddol.

**Goruchwyliaeth barhaus**

Yr wyf wedi fy sicrhau bod HDP wedi llwyddo i ddarparu enghreifftiau mor gadarnhaol o arfer da a’u bod hefyd yn ymwybodol o’r meysydd lle mae dal angen gwelliannau.

Mae’r Heddlu’n rhoi prosesau ar waith tuag at wella, a byddaf yn parhau i fonitro cynnydd o ran cyflwyno’r Model Gweithredu Cenedlaethol.